# Y Trydydd Cynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (226)

**Dyddiad: Dydd Mawrth 9 Tachwedd 2010**
**Amser: 13.30**

### Eitem 1: Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

……………………..

### 14.20
### Eitem 2: Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

……………………..

### 14.40
### Eitem 3: Datganiad gan y Gweinidog dros Dreftadaeth: Yr Amgylchedd Hanesyddol

……………………..

### 15.12
### Eitem 4: Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2010

**NDM4573 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 24.4:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o’r Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2010 yn cael ei lunio yn unol â’r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Hydref 2010.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

……………………..

### 15.13
### Eitem 5: Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2010

**NDM4572 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 24.4:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o’r Gorchymyn Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) (Diwygio) 2010 yn cael ei lunio yn unol â’r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Hydref 2010.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

………………………

## 15.14
## Cynnig i atal Rheol Sefydlog 24.6(ii) er mwyn caniatáu i’r ddau Orchymyn canlynol gael eu hystyried

**NDM4577 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 35.6 a 35.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 24.6 i ganiatáu i Gynigion â Dyddiad Trafod NDM 4574 a NDM 4575 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 9 Tachwedd 2010.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

………………………

## 15.14
## Eitem 6: Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Refferendwm Cymru (Darpariaethau Deddf Cynulliad) (Cwestiwn y Refferendwm, Dyddiad y Refferendwm etc.) 2010

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM4574 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 24.4:

Yn cymeradwyo Gorchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Refferendwm Cymru (Darpariaethau Deddf Cynulliad) (Cwestiwn y Refferendwm, Dyddiad y Refferendwm etc.) 2010.

Gosodwyd y Gorchymyn drafft a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 21 Hydref 2010;

Gosodwyd yr adroddiad ar farn y Comisiwn Etholiadol ar y cwestiwn refferendwm arfaethedig gerbron y Cynulliad ar 21 Hydref 2010.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 0 | 0 | 47 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………

**15.14**
**Eitem 7: Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Diwygio Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) 2010**

**NDM4575 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 24.4:

Yn cymeradwyo Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Diwygio Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) 2010

Gosodwyd y Gorchymyn drafft a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 21 Hydref 2010.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

………………………

**15.35**
**Eitem 8: Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru**

**NDM4576 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2009-10; ac

2. Yn nodi y bydd y Dirprwy Weinidog dros Blant yn llunio ymateb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac yn adrodd ar hyn i’r Cynulliad Cenedlaethol erbyn 31 Mawrth 2011.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*“Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu’n llawn argymhellion y Comisiynydd yn brydlon ac yn gyson.”*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 32 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*“Yn nodi bod y Comisiynydd Plant wedi mynegi pryderon, fel y mae wedi’i wneud droeon dros y blynyddoedd, am y diffyg cynnydd o ran mynd i’r afael â thlodi plant”*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 32 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM4576 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2009-10; a

2. Yn nodi y bydd y Dirprwy Weinidog dros Blant yn llunio ymateb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac yn adrodd ar hyn i’r Cynulliad Cenedlaethol erbyn 31 Mawrth 2011.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 0 | 0 | 46 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………

**16.36**
**Cyfnod pleidleisio**

**Daeth y cyfarfod i ben am 16.38**

………………………

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mercher 10 Tachwedd 2010.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**